

Gall cyfweiliadau â'r cyfryngau fod naill ai:

1. **mewn ymateb i ddatganiad a gyhoeddwyd i'r cyfryngau, erthygl ymchwil neu bapur cynhadledd**
2. **NEU i gael sylw arbenigol gennyh ar stori newyddion gyfredol.**

Mae agenda'r newyddion yn symud yn gyflym! P'un ai bod y cais wedi dod atoch chi'n uniongyrchol neu drwy Swyddfa'r Wasg, ymatebwch cyn gynted â phosib, ond rhowch ddigon o amser i'ch hun baratoi.

Cyn ymateb mewn dyfnder i newyddiadurwr print neu recordio cyfweiliad i'w ddarlledu, canfyddwch beth sy'n ofynnol a threfnwch amser i siarad ymhellach.

Nod y cyfryngau yw dod o hyd i rywun a all wneud sylwadau mewn iaith y bydd y gynulleidfa'n ei deall ac o fewn eu ffrâm amser.

Mae cyfweiliadau ar y cyfryngau yn gyfle da i gael enw Prifysgol Bangor yn y cyfryngau ac i godi ymwybyddiaeth am y Brifysgol.



PARATOI

Holwch beth yw'r rhaglen/cylchgrawn/papur newydd a'r gynulleidfa. Bydd hyn yn eich helpu i benderfynu ar y cywair priodol.

Holwch am hyd darllediad y cyfweiliad i'ch helpu i grynhoi eich neges

Holwch ynglŷn â phwy arall sy'n cael cyfweiliad ar gyfer yr un darn.

Gofynnwch a fydd eich cyfweiliad yn cael ei ddarlledu'n fyw, yn cael ei recordio'n fyw neu'n cael ei recordio ymlaen llaw.

Cyn belled nad yw'r cyfweiliad yn fyw, gallwch ofyn am ail-recordio eich ateb i gwestiwn os ydych yn anhapus. Anaml iawn y bydd newyddiadurwr da yn gwrthod gwneud hynny.

Yn achlysurol iawn gallwch gael copi o'r cwestiynau ymlaen llaw, felly holwch am faes cyffredinol y cwestiynau. Bydd y cwestiynau ar ôl yr un cyntaf yn seiliedig ar eich ateb, felly paratowch y pwyntiau

yr ydych eisiau eu mynegi ymlaen llaw. Meddyliwch am eich atebion fel ffordd o dywys y cwestiynau i gyfeiriad y maes yr ydych eisiau ei drafod.

Nodwch gwpl o negeseuon syml allweddol yr ydych eisiau eu cyfleu, a gwnewch yn siŵr eich bod yn glynu atynt. Mynegwch nhw'n glir ac yn gryno gydag enghreifftiau/cyffelybiaethau da y bydd pawb yn eu deall.

Mae darlledwyr yn chwilio am sylwadau bachog - paratowch gwpl ymlaen llaw.

Paratowch ystadegau i gefnogi'ch neges. Nid yw'n hawdd amgyffred ffigurau mawr, canfyddwch gymariaethau i geisio egluro e.e. x cae pêl-droed/bysus Llundain/hanner trwch blewyn dynol.

Osgowch jargon ac iaith arbenigol, a pheidiwch â defnyddio byrfoddau.

Gall unrhyw beth a ddwedwch, yn cynnwys o flaen y cyfweiliad neu ar

ei ôl, gael ei ddefnyddio; peidiwch â dweud unrhyw beth nad ydych eisiau ei weld mewn print / wedi'i ddarlledu.

Ceisiwch enwi Prifysgol Bangor yn y cyfweiliad e.e. "Mae gan ein grŵp ymchwil presennol ym Mhrifysgol Bangor ddiddordeb mawr mewn datblygu'r maes ymchwil hwn". Os na wnewch, mae perygl na fydd y Brifysgol yn cael ei chrybwyll o gwbl yn y darllediad.

Cadwch mewn golwg mai dim ond am ychydig funudau y bydd eitem newyddion arferol yn para ac mae'n bosib mai dim ond cyfran ohono fydd eich cyfweiliad, felly gwnewch eich pwynt yn gynnar

Byddwch yn hyderus! Cofiwch mai chi yw'r arbenigwr.

RADIO

Symleiddiwch a chadwch yn fyr. Mae meddwl am sylwadau neu negeseuon bachog neu gofiadwy yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer y radio gan fod gwrandawyr yn aml yn gwneud rhywbeth arall e.e. gyrru/coginio.

Peidiwch â cheisio mynegi mwy na thri syniad mewn cyfweiliad radio am na fydd yn para mwy nag ychydig funudau.

Defnyddiwch enghreifftiau ac iaith a fydd yn creu darlun gweledol i'r gwrandawr.

Meddyliwch ymlaen llaw am unrhyw gwestiynau amlwg neu negyddol gan y rhaglen neu o safbwynt eu gwrandawyr a sut y bydddech yn ymateb iddynt.



TELEDU

Cofiwch y bydd rhaglen newyddion eisiau lluniau i'w darlledu dros ddisgrifiad y cyflwynydd o'r stori. Meddyliwch am gynnwys gweledol neu leoliad a fydd yn rhoi lliw i'ch stori..

Yn aml bydd angen cyfranwyr eraill, yn arbennig ar fater yn ymwneud ag iechyd - rhywun a effeithir arnynt gan y cyflwr etc. Efallai y bydd angen i chi helpu drwy awgrymu cyfranwyr. Efallai y gofynnir i chi gael eich ffilmio yn y labordy neu yn y maes neu mewn lleoliad perthnasol.

Os cewch gyfweiliad, edrychwch ar y cyfweilydd yn hytrach na'r camera. Ond pan fo'n rhaid edrych ar y camera, cadwch eich llygaid arno neu ychydig uwch ei ben. Yr eithriad yw os ydych yn cael eich cyfweled o bell, naill ai yn y BBC ym Mangor neu dros y rhyngwyd gan ddefnyddio Skype neu gyfrwng tebyg.

Eisteddych i fyny gan bwysu ymlaen ychydig er mwyn ymddangos yn egniol a brwd, ond yn hamddenol - peidiwch â dal eich dwylo'n dynn na'u chwifio o

gwmpas i dynnu sylw'r gwyliwr a pheidiwch â chwarae gydag unrhyw emwaith. Os ydych yn sefyll, cadwch eich traed led eich cluniau ar wahân er mwyn symud cyn lleied â phosibl.

Gwisgwch yn daclus, ond osgowch ddillad sy'n tynnu sylw e.e. patrymau prysur, teis ffansi a lliwiau llachar. Gwisgwch yng nghyd-destun y stori e.e. peidiwch â gwisgo dillad dylunydd os ydych yn trafod tloidi.



CYFRYNGAU PRINT

Cyn y cyfweiliad, gofynnwch i'r newyddiadurwr beth fydd ffocws eu stori, a oes unrhyw un arall yn cael eu cyfweled, a pha fath o gwestiynau a gaiff eu gofyn.

Mae newyddiadurwyr yn gweithio i gyfyngiadau amser, ac maent yn dibynnu ar baratoi straeon yn gyflym iawn. Mae'n bwysig iawn i ddychwelyd eu galwadau a chadw at yr amserlen.

Ceisiwch beidio â gwahaniaethu gormod rhwng galwadau ffôn gan y *North Wales Chronicle*, y *Sun* neu'r *Guardian* gan na fydd unrhyw ragdybiaethau sydd gennych yn debyg o'ch cynorthwyo i roi cyfweiliad da. Mae'n well trin yr holl gyfweiliadau gyda'r un radd o barch a pharatoad, gan na allwch wybod lle gall y stori gael ei hailadrodd.

CWESTIYNAU ANODD NEU ANNISGWYL

Peidiwch â chael eich taflu gan gwestiwn na allwch ei ateb, neu gwestiwn yr ydych yn teimlo y dylech allu ei ateb gan mai chi yw'r arbenigwr. Dywedwch rywbeth tebyg i hyn:

"Mae hynny'n gwestiwn i'm cydweithiwr, y peth'na-olegydd. Fel *be'-chi'n-galw-olegydd*, yr hyn sy'n fy niddori i yn y mater hwn yw...."

Peidiwch â bod ofn troi'r sgwrs at yr hyn rydych chi am ei ddweud.

Defnyddiwch dechnegau pontio i dynnu'r sgwrs at y pwynt rydych chi am ei wneud h.y. cydnabyddwch y cwestiwn, ond

peidiwch â chytuno â'r broblem, ac yna symudwch ymlaen yn gyflym at eich agenda chi:

"Mae hynny'n gwestiwn diddorol, ond fel *be'-chi'n-galw-olegydd* o'm hymchwil i, rwy'n credu mai'r mater pwysig yw..."

"Mae hwnnw'n bendant yn fater i'w ddatrys, dyna pam rydym yn gwneud..."

"Cyn i ni symud ymlaen o'r pwnc yna, gadewch i mi ychwanegu..."

"Os gaf i roi persbectif gwahanol ar hynny..."

"Mae'n bwysig cofio bod..."

Peidiwch ag ailddweud y negyddol. Ceisiwch gywiro heb ailddweud yr ymadrodd negyddol:

Gall newyddiadurwyr oedi cyn gofyn y cwestiwn nesaf ar ôl i chi orffen rhoi eich ateb. Peidiwch â chael eich temptio i lenwi bwlch mewn sgwrs gan y gallwch gael eich arwain i ddweud mwy nag yr oeddech yn ei fwriadu.

Peidiwch â chael eich taflu gan gwestiwn personol ar ddiwedd y cyfweiliad. Mae newyddiadurwyr yn hoff o weld ochr ddynol academyddion, felly efallai y caiff sŵolegydd ei holi am ei anifail anwes.

AC YN OLAF

Rhaid i chi dderbyn y gall cyfweiliad gael ei **olygu'n drwm** neu ei **hepgor**. Yn anffodus gall llawer o'r hyn rydych wedi'i ddweud gael ei dorri yn yr ystafell olygu neu ei hepgor yn llwyr oherwydd diffyg lle. Peidiwch â gadael i hynny eich digalonni - mae'n digwydd yn aml.

Rhowch **wybod** i Swyddfa'r Wasg am unrhyw gyfweiliadau yr ydych wedi'u gwneud os gwelwch yn

dda. Bydd hyn yn ein cynorthwyo gyda'n gwaith monitro a bydd eich cyfraniad yn cael ei restru yn yr e-bost briffio am sylw yn y cyfryngau a anfonir i **Bwyllgor Gweithredu'r Brifysgol** ac i uwch reolwyr eraill. Gallwn hefyd **hyrwyddo** eich cyfraniad ar gyfryngau cymdeithasol.

Os ydych yn **ansicr** ynglŷn â siarad gyda'r cyfryngau, naill ai'n

rhwngweithiol neu mewn ymateb i gynnyg, trafodwch y mater gyda Swyddfa'r Wasg.

Cofiwch fod yna **gyrsiau hyfforddiant** i'r cyfryngau ar gael ac y gallech o bosib dalu o gyfran 'ymwneud â'r cyhoedd' eich grant ymchwil. Mae hyfforddiant cyfyngedig ar gael trwy Swyddfa'r Wasg.



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

Cynhyrchwyd gan Swyddfa'r Wasg - am fwy o gynghorion yn ymwneud â'r cyfryngau, anfonwch e-bost at press@bangor.ac.uk